Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Cynllun Iaith Gymraeg

Paratowyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993

Iechyd ar Waith – Cyrraedd y Nod – The Corporate Standard – Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd – Green Dragon Environmental Standard

Investors in People | Buddsoddwyr mewn Pobl

Estyn yw Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Cynllun Iaith Gymraeg a baratowyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993

Paratowyd y Cynllun hwn yn unol ag Adran 21(3) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Mabwysiadwyd y Cynllun hwn gan Estyn ac fe'i cymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn 2007.

Mae Estyn wedi mabwysiadu'r egwyddor o drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r Cynllun hwn yn egluro'r modd y bydd Estyn yn rhoi'r egwyddor honno ar waith wrth ddarparu gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru.

Cymerwyd pob gofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Ⓗ **Hawlfraint y Goron 2010: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.**

Cynnwys	Tudalen

Cyflwyniad 1

Egwyddorion cyffredinol 4

Perthynas Estyn ag eraill: arolygu a chyngor 5

Safon ein gwasanaeth Cymraeg 8

Gwasanaeth Cymraeg Estyn 9

Gweithredu'r Cynllun 14

Monitro'r Cynllun a chyhoeddi gwybodaeth 16

Cyhoeddi'r Cynllun 17

Awgrymiadau ar gyfer gwella'r Cynllun 18

Cwynion 19

Atodiad 1

Cynllun gweithredu ar gyfer rhoi'r Cynllun ar waith

Cyflwyniad

Estyn yw swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Mae Estyn yn cynnig her ar gyfer gwella trwy ddarparu gwasanaeth arolygu a chyngor annibynnol ac ansawdd uchel sy'n benodol i anghenion Cymru ac yn eu gwasanaethu. Mae safbwynt unigryw Cymru gyfan Estyn yn cyfrannu at ddatblygu a gweithredu polisi ar gyfer addysg a dysgu gydol oes.

Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu ac adrodd ar:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- ALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y Ganolfan Byd Gwaith.

Rydym hefyd yn cynnal arolygon thematig ac arolygon ardal, arolygon o bynciau'r cwricwlwm ac agweddau eraill ar addysg ac yn cyflwyno adroddiadau ar y canfyddiadau. Rydym yn cynnal ymholiadau/arolygiadau penodol mewn ymateb i geisiadau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Wrth gyflawni ei gyfrifoldebau ar gyfer arolygu darparwyr addysg a hyfforddiant, gan gynnwys sefydliadau hyfforddiant cychwynnol i athrawon, mae Estyn yn ystyried yr angen i adrodd ar ansawdd a safonau gwaith mewn:

- sefydliadau sy'n darparu addysg ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg;
- addysgu a dysgu Cymraeg a Chymraeg fel ail iaith;
- hyfforddi athrawon ar gyfer gwaith dwyieithog, gwaith Cymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg a ddarperir mewn ysgolion a cholegau.

Rydym hefyd yn adrodd ar ba mor dda y mae pob darparwr addysg a hyfforddiant yn hyrwyddo medrau dwyieithog dysgwyr.

Mae Estyn wedi ymrwymo i egwyddorion allweddol datblygiad cynaliadwy, cynhwysiad cymdeithasol a chyfle cyfartal. Mae Estyn yn ymdrechu i gymhwyso'r egwyddorion hyn i bob agwedd ar ei waith a bydd yn gweithio mewn cydweithrediad â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac eraill i gyflawni'r weledigaeth hon.

Arweinir Estyn gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi (PAEM). Mae ei strwythur yn ymwneud yn uniongyrchol â chyflwyno'i amcanion sefydliadol ac mae'n seiliedig ar dair cyfarwyddiaeth. Mae dwy gyfarwyddiaeth yn delio ag arolygu ac AEM, cyflwyno arolygiadau a chyngor, tra mae'r drydedd gyfarwyddiaeth yn darparu cynllunio busnes, systemau gweithredol a gwasanaethau corfforaethol. Mae gennym swyddfeydd yng Nghaerdydd ac yn Yr Wyddgrug.

Ein cenhadaeth

Sicrhau rhagoriaeth ar gyfer yr holl ddysgu yng Nghymru

Bydd y genhadaeth yn cael ei chyflawni trwy ddarparu gwasanaeth arolygu a chyngor annibynnol ac ansawdd uchel mewn perthynas ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Ein gweledigaeth

Cael ein cydnabod trwy arbenigedd ein staff fel llais awdurdodol ar ddysgu yng Nghymru

Byddwn yn dysgu ac yn datblygu, yn dathlu ac yn lledaenu arfer orau, yn rhannu ein harbenigedd ac yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru a phartneriaid a rhan ddeiliaid eraill.

Rhagoriaeth fydd wrth wraidd ein dyheadau busnes yn ogystal ag yn ein disgwyliadau o'r rheiny yr ydym yn eu harolygu.

Ein diben

Gwella safonau ac ansawdd mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru

Byddwn yn gwneud hyn trwy arolygu ansawdd uchel a rhoi cyngor, i gefnogi cyfeiriad strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Ein blaenoriaeth strategol

Trawsnewid arolygu i fodloni anghenion dinasyddion a rhan ddeiliaid.

Byddwn yn cyflawni hyn trwy wella cynhwysedd a gallu yn Estyn yn barhaus.

Ein hamcanion gweithredol

Cyflwyno gwasanaeth arolygu addysg a hyfforddiant ansawdd uchel yng Nghymru

Bydd ein harolygu yn gymesur â risg ac yn cefnogi gwelliant parhaus addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Darparu cyngor cadarn, yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu annibynnol

Bydd ein cyngor yn llywio Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth ffurfio ac arfarnu strategaeth a pholisi.

Mae ein gwefan yn www.estyn.gov.uk yn cynnwys mwy o wybodaeth am ein gwaith.

Y Cynllun

Dyma yw'r trydydd Cynllun Cymraeg a luniwyd gan Estyn. Mae'r cynllun yn adeiladu ar y ddau gynllun blaenorol ac yn datblygu agweddau ar ein gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r Cynllun wedi'i anelu at y cyhoedd yn gyffredinol, adrannau o'r cyhoedd sy'n ymwneud ag addysg a hyfforddiant, ac yn benodol, rhieni, llywodraethwyr, awdurdodau addysg lleol, arolygwyr annibynnol, asiantaethau arolygu ac eraill sy'n gysylltiedig â gwasanaethau addysg a hyfforddiant.

Rydym yn ystyried dyheadau Iaith Pawb yn ein holl waith. Mae'r rhain yn cynnwys cyflawni'r targedau allweddol canlynol a nodir yn Iaith Pawb:

erbyn 2011 -
mae canran y bobl yng Nghymru sy'n gallu siarad Cymraeg wedi cynyddu 5 pwynt canran o'r ffigur sy'n codi o gyfrifiad 2001

Iaith Pawb, tudalen 11

…. gwaith i sicrhau bod cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith ym mhob agwedd ar fywyd. Yn yr achos cyntaf, mae hyn yn golygu diogelu a hyrwyddo *hawliau unigolion i ddefnyddio'r iaith Gymraeg.*

Iaith Pawb, tudalen 47

Egwyddorion cyffredinol

Egwyddor cydraddoldeb

Wrth ddarparu gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru, rydym wedi ymrwymo i'r egwyddor y byddwn yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Mae hyn yn berthnasol i'r gwasanaethau y mae cyflogeion Estyn yn eu darparu i ni ac i'r rheiny a ddarperir gan eraill ar ein rhan, er enghraifft, staff sy'n cael eu secondio i Estyn a'r rheiny sy'n cael eu contractio i weithio i Estyn.

Cyflwyno a safon y gwasanaeth

Mae'r holl bolisïau yn y Cynllun hwn yn cael eu gweithredu ar hyn o bryd neu maent wedi'u cynnwys yn y cynllun gweithredu yn Atodiad 1.

Rydym wedi ymrwymo i gyflwyno safon yr un mor uchel o wasanaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg. Rydym yn anelu at gysondeb yn safon ein gwasanaethau, ni waeth a yw'r gwasanaethau hynny'n cael eu cyflwyno yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Byddwn yn monitro cyflwyno a safon ein gwasanaeth.

Cynllunio gwasanaethau

Wrth gynllunio ein gwasanaethau, rydym wedi ymrwymo i roi ystyriaeth fanwl i'r angen i ddarparu'n gyfartal ar gyfer siaradwyr Cymraeg a Saesneg.

Polisïau a gweithdrefnau newydd

Pan fyddwn yn rhoi polisïau a mentrau newydd ar waith, byddwn yn gwneud yn siŵr eu bod yn bodloni nodau'r polisi a nodir yn y Cynllun hwn. Ni fyddwn yn addasu'r Cynllun heb gael cymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg ymlaen llaw.

Perthynas Estyn ag eraill: arolygu a chyngor

Arolygu

Byddwn yn cynnig arolygu trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn trefnu darpariaeth a gwasanaethau dwyieithog pryd bynnag y bydd eu hangen o dan y Cynllun hwn.

Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu ystod eang o ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru yn unol â'r rhestr ar dudalen 2. Mae'r Fframwaith Arolygu Cyffredin a llawlyfrau ategol yn amlinellu ein harfer arolygu yn glir. Mae'r fframwaith a'r llawlyfrau ar gael ar ein gwefan yn www.estyn.gov.uk. Maent wedi bod yn destun ymgynghori gyda phob un o'r rheiny sydd â diddordeb mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru, gan gynnwys Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Maent yn amlinellu mewn cryn fanylder y ffordd yr ydym yn arolygu'r graddau y mae pob un o'r darparwyr, y gwasanaethau a'r partneriaethau, yn sicrhau bod eu darpariaeth a'u cysylltiadau â'r cyhoedd:

- yn parchu dewis iaith y dysgwyr[1]; ac
- yn hyrwyddo medrau dwyieithog dysgwyr ac ymwybyddiaeth dysgwyr o fanteision dwyieithrwydd.

Rydym hefyd wedi llunio arweiniad atodol ar arolygu Cymraeg a dwyieithrwydd wrth gynnal arolygiadau o bob darparwr.

Rydym yn cynnig arweiniad ychwanegol ar gyfer arolygu addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

Fframweithiau a llawlyfrau arolygu Estyn

Mae ein fframweithiau a'n harweiniad ar gyfer arolygu yn nodi'n fanwl y modd y byddwn yn barnu'r graddau y mae darparwyr yn ystyried gofynion ieithyddol dysgwyr a rhan ddeiliaid allweddol eraill wrth ddarparu addysg, hyfforddiant a gwasanaethau eraill. O ran addysg statudol, byddwn yn arolygu'r ddarpariaeth yn unol â natur ieithyddol yr ysgol fel y'i diffinnir gan yr awdurdod addysg lleol.

Byddwn yn edrych ar y modd y mae gweithgareddau a gwasanaethau'r darparwr yn adlewyrchu proffil ieithyddol yr ardal y mae'n ei gwasanaethu a'r cysylltiadau ieithyddol sy'n bodoli rhwng y darparwr, y gymuned a phob un o'r rhan ddeiliaid.

Mae arolygwyr yn ystyried pa mor dda y mae dysgwyr yn gallu symud rhwng sectorau, gan ddilyn eu llwybrau addysg dewisol yn eu dewis iaith.

Mae Estyn hefyd yn ystyried sut mae darparwyr yn rhoi arweinyddiaeth wrth hyrwyddo'r egwyddorion ieithyddol hyn ac wrth sicrhau bod iaith y dysgwyr yn fater allweddol, er enghraifft, wrth sicrhau cyfeiriadau addysgol unigol rhwng adrannau neu asiantaethau ac wrth ddarparu cyngor ac arweiniad gyrfa ac arweiniad arall.

[1] Dysgwr – pawb sy'n cael addysg neu hyfforddiant gydol oes.

Cwestiynau allweddol ar gyfer arolygu yng nghyd-destun ein Cynllun Iaith Gymraeg

Yn ein holl waith arolygu, mae cwestiynau allweddol pob darparwr addysg a hyfforddiant, gan gynnwys y rheiny sy'n gwneud darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, fel a ganlyn:

- Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni? A ydynt yn cyrraedd lefelau priodol mewn cymhwysedd dwyieithog?

- Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu? A yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu yn bodloni anghenion iaith y dysgwyr?

- Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach? A ydynt yn hyrwyddo medrau dwyieithog dysgwyr ac yn adlewyrchu iaith a diwylliant Cymru?

- Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr? A yw darparwyr yn cefnogi ac yn arwain dysgwyr yn briodol, gan ystyried eu cefndir cymdeithasol, addysgol, ethnig neu ieithyddol?

- Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol? Mae hyn yn cynnwys ystyried blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan gynnwys y rheiny am ddwyieithrwydd yn benodol.

- Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau yn eu darpariaeth ar gyfer Cymraeg a dwyieithrwydd?

- Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau? Lle ceir darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog, bydd yr adran hon yn adrodd ar arbenigedd perthnasol staff a phriodoldeb yr adnoddau a ddefnyddir.

Proffil ieithyddol y gymuned a wasanaethir

Bydd y cwestiynau hyn yn cynnwys ystyried y graddau y mae'r sefydliad yn ystyried proffil ieithyddol y gymuned ac anghenion cyflogwyr wrth wneud penderfyniadau am ddyrannu adnoddau a datblygu ei allu ieithyddol i fodloni ei amcanion.

Cyngor

Mae Estyn hefyd yn gyfrifol am gynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru ac eraill yng Nghymru ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant. Mae'n cyhoeddi adroddiadau ar ystod o faterion mewn ymateb i geisiadau Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn cylch gorchwyl blynyddol gan y Gweinidog.

Yn ei waith cyngor, bydd Estyn:

- yn ystyried dimensiwn ieithyddol y cyngor, gan dynnu sylw at faterion iaith perthnasol yn y ddogfen;

- yn gweithio o fewn fframwaith polisi trosfwaol sefydledig a fydd yn rhoi ystyriaeth lawn i faterion iaith. Er enghraifft, bydd Panel Estyn ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn rhoi cyngor yn unol â'i gylch gorchwyl traws-sector; ac

- yn lledaenu ac yn hyrwyddo arfer dda am addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

Wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, bydd Estyn yn cynnal trafodaethau rheolaidd â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac yn ymgynghori â'i gynrychiolwyr ar faterion sydd o ddiddordeb i'r naill a'r llall.

Wrth gymhwyso egwyddor cydraddoldeb ar gyfer Cymraeg a Saesneg i'n holl waith arolygu a chyngor, byddwn:

- yn trefnu darpariaeth a gwasanaethau dwyieithog pryd bynnag y byddant yn briodol ac yn sicrhau bod ein holl waith arolygu a chyngor yn ystyried materion ieithyddol a diwylliannol;

- yn rhoi sylw manwl i ddimensiynau ieithyddol a diwylliannol wrth ddatblygu a gweithredu pob fframwaith arolygu a llawlyfr cyngor, gan ymgynghori'n eang ar eu cynnwys;

- yn ymgynghori â'r sefydliadau yr ydym yn gweithio gyda nhw, gan ddefnyddio'u dewis iaith;

- yn sicrhau bod arolygwyr sy'n arolygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn gymwys i wneud hynny, a'u bod yn gyfarwydd â chanllawiau Estyn ar gyfer arolygu addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog;

- yn sicrhau bod ein gwaith arolygu a'n gweithgareddau sy'n deillio o ofynion a mentrau Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn cael eu cynnal yn ddwyieithog fel y bo'n briodol;

- yn hyrwyddo codi safonau dwyieithog;

- yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chasglu am gydymffurfiad pob asiant/contractwr â'r gofynion iaith Gymraeg yn y contractau;

- yn monitro sampl o arolygiadau i sicrhau bod ein gwaith yn cydymffurfio â'r Cynllun; ac

- yn monitro ymatebion holiadur ôl-arolygiad i sicrhau cydymffurfiad.

Safon ein gwasanaeth Cymraeg

Ein nod yw cyflwyno gwasanaeth dwyieithog a Chymraeg o ansawdd uchel, ac wrth gadw at ofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, mabwysiadu'r arfer orau posibl o ran defnyddio'r Gymraeg.

I gyflawni hyn, byddwn:

- yn cyhoeddi ac yn hyrwyddo ein Cynllun Iaith Gymraeg i godi ymwybyddiaeth a mwy o ddealltwriaeth;
- yn gweithredu gyda chwrteisi a chymwynasgarwch ar bob adeg;
- yn gosod canllawiau clir ar gyfer delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg;
- yn nodi llinellau cyswllt clir ar gyfer y cyhoedd ag Estyn i gynorthwyo mwy o ddealltwriaeth, yn hyrwyddo gwelliannau ac yn tynnu sylw at ddiffygion o ran gweithredu'r polisi; ac
- yn monitro ein perfformiad wrth gyflwyno gwasanaeth Cymraeg yn rheolaidd ac yn gosod targedau ar gyfer gwella, lle bo hyn yn briodol.

Gwasanaeth Cymraeg Estyn

Gohebu â'r cyhoedd

Rydym yn croesawu cyfathrebu ysgrifenedig yn Gymraeg neu yn Saesneg. Bydd gohebiaeth yr ydym yn ei dechrau am faterion sydd â pherthnasedd cyffredinol yng Nghymru yn ddwyieithog.

Byddwn:

- yn sicrhau bod yr holl ohebiaeth yn cael ei hateb yn yr iaith y'i derbyniwyd. Bydd yr holl ohebiaeth bersonol yn cael ei hysgrifennu yn yr iaith a ddewiswyd gan y gohebydd wrth gysylltu ag Estyn. Lle nad yw'r dewis iaith yn hysbys, bydd y llythyr cyntaf yn ddwyieithog. Bydd gohebiaeth yn cael ei dechrau yn Gymraeg gyda'r rheiny yr ydym yn gwybod bod yn well ganddynt gael gohebiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg;

- yn sicrhau bod unrhyw gylchlythyr, llythyr safonol neu ffurflen a gyhoeddir i'r cyhoedd yn ddwyieithog; ac

- yn sicrhau y bydd yr un graddfeydd amser yn berthnasol i ymateb Estyn yn Gymraeg ac yn Saesneg.

I weithredu'r polisi uchod, bydd pob un o'r staff yn cael gwybod am y trefniadau hyn a darperir cymorth fel sydd angen i aelodau o'r staff sy'n ddi-Gymraeg i gyfathrebu â'r cyhoedd.

Cyfathrebu â'r cyhoedd dros y ffôn ac wyneb yn wyneb

Mae croeso i unrhyw un sy'n cysylltu â ni dros y ffôn wneud hynny yn Gymraeg neu yn Saesneg. Bydd pawb yn cael eu cyfarch yn ddwyieithog. Gallant ddisgwyl cael eu trosglwyddo, os ydynt yn dymuno, i aelod o staff sy'n gallu sgwrsio â nhw yn Gymraeg. Bydd pobl sy'n ymweld â swyddfeydd Estyn yn cael gwasanaeth tebyg.

I gyflawni hyn, byddwn:

- yn sicrhau bod pob un o'r staff mewn mannau cyswllt wedi cael cyfarwyddyd i gyfarch yn ddwyieithog; ac

- yn sicrhau bod cynnig yn cael ei wneud i drefnu bod siaradwr Cymraeg yn dychwelyd galwad cyn gynted â phosibl, pan na fydd aelod o staff sy'n siarad Cymraeg yn bresennol. Fel arall, bydd y person sy'n ffonio yn cael cynnig naill ai i barhau â'r alwad yn Saesneg neu ysgrifennu atom yn Gymraeg.

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Rydym yn annog ac yn croesawu defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg mewn cyfathrebu electronig.

I gyflawni hyn, byddwn:

- yn sicrhau bod unrhyw feddalwedd newydd, a gwefan Estyn, yn gydnaws â'r Cynllun a'n hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Cyfarfodydd cyhoeddus

Wrth drefnu cyfarfodydd sy'n cynnwys aelodau o'r cyhoedd, gan gynnwys cyfarfodydd arolygu â rhieni a chyrff llywodraethol, byddwn yn ystyried y trefniadau ymarferol sy'n ofynnol i sicrhau bod pawb yn gallu siarad yn yr iaith o'i (d)dewis. Mae hyn yn berthnasol i gyfarfodydd arolygu a arweinir gan AEM, arolygwyr sydd wedi'u secondio i Estyn ac arolygwyr wedi'u contractio.

I gyflawni hyn, byddwn:

- yn defnyddio'r ffurflen manyleb arolygu, yn achos cyfarfodydd arolygu, i ofyn i'r corff llywodraethol a oes angen cyfieithiad yn y cyfarfodydd arolygu ai peidio. Caiff y penderfyniad ei wneud gan y corff llywodraethol ar sail dymuniadau rhieni a natur ieithyddol yr ysgol neu'r sefydliad arall a'r ardal. Yn y gwahoddiad i arolygwyr cofrestredig dendro am arolygu ysgol, rydym yn nodi bod yn rhaid cyfieithu lle gofynnwyd am hyn. Mae'r un peth yn berthnasol i bob arolygiad a arweinir gan AEM; ac

- yn sicrhau wrth drefnu cyfarfodydd â rhieni, llywodraethwyr neu aelodau eraill o'r cyhoedd, bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r trefniadau ymarferol sydd eu hangen i sicrhau bod pawb sy'n bresennol yn cael y dewis i siarad Cymraeg neu Saesneg.

Cyfarfodydd a chynadleddau Estyn

Mae croeso i aelodau o'r cyhoedd siarad Cymraeg neu Saesneg mewn cyfarfodydd a chynadleddau a gynhelir gennym ni:

I gyflawni hyn, byddwn:

- yn trefnu cyfieithu, yn enwedig mewn sesiynau trafod agored; ac

- yn darparu cyfleoedd i ddewis cael trafodaeth grŵp yn Gymraeg ac yn Saesneg, er mwyn i bawb sy'n bresennol allu cyfrannu yn eu dewis iaith.

Cyswllt arall â'r cyhoedd

- Mae croeso i aelodau o'r cyhoedd sy'n dymuno delio ag Estyn wyneb yn wyneb wneud hynny yn Gymraeg neu yn Saesneg, yn ôl eu dewis.

Hunaniaeth gorfforaethol

Bydd enw, cyfeiriad, logo Estyn yn ddwyieithog ac yn cael eu defnyddio ym mhob un o'r cyhoeddiadau/cyfeiriadau/cyflwyniadau. Mae arwyddion gwybodaeth ar swyddfeydd Estyn yng Nghaerdydd ac yn Yr Wyddgrug yn ddwyieithog, gyda'r ddwy iaith yn cael yr un amlygrwydd o ran fformat, maint, ansawdd ac eglurder.

I gyflawni hyn, byddwn:

- yn sicrhau bod penawdau llythyrau, slipiau cyfarch, dalennau eglurhaol (ffacs ac eraill), cardiau busnes staff ac eitemau tebyg yn ddwyieithog a bod y ddwy iaith yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd; ac

- yn sicrhau bod yr holl arwyddion newydd neu arwyddion sy'n cael eu hailosod yn ddwyieithog.

Cyhoeddiadau

Bydd pob aelod o'r cyhoedd yn gallu darllen cyhoeddiadau Estyn sy'n berthnasol i Gymru gyfan yn eu dewis iaith. Gall unrhyw un sy'n gysylltiedig ag unrhyw sefydliad addysg a hyfforddiant yng Nghymru ddisgwyl i adroddiadau a gyhoeddir gan Estyn ar sefydliadau unigol gael eu cyhoeddi yn ddwyieithog pan fydd y sefydliad yn gofyn am hyn, neu yn achos ysgolion, neu wasanaeth awdurdod lleol, gan yr ysgol neu'r awdurdod lleol. Lle na ofynnir am adroddiad dwyieithog, bydd adroddiadau ar sefydliadau unigol yn ymddangos yn Saesneg yn unig.

I gyflawni hyn, byddwn:

- yn sicrhau bod fformat dwyieithog i adroddiadau Estyn sy'n cael eu cyhoeddi yn ddwyieithog. Bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân o destunau dim ond yn cael eu cyhoeddi os yw'r fformat hwn yn fwy priodol o dan amgylchiadau penodol, er enghraifft, lle bydd fformat dwyieithog yn golygu bod dogfen yn anhylaw. Bydd yr holl ddeunydd yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr ac yn cael eu cyflwyno gyda'i gilydd.

Ffurflenni a deunydd esboniadol

Bydd yr holl ffurflenni cyhoeddedig a deunydd esboniadol yn cael eu cyflwyno yn ddwyieithog. Mewn amgylchiadau lle gallai fod yn fwy priodol i gyflwyno ffurflenni Cymraeg a Saesneg ar wahân, (e.e. pan allai dogfennau a gynhyrchir yn ddwyieithog fod yn anhylaw), byddwn yn cyflwyno'r ddwy fersiwn ochr yn ochr ac yn trefnu eu bod ar gael yn gyfartal.

I gyflawni hyn, byddwn:

- yn monitro ein holl ffurflenni a'n harweiniad esboniadol i sicrhau eu bod yn cael eu cyhoeddi yn ddwyieithog. O bryd i'w gilydd, cyhoeddir fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân ac yn unol â'r amgylchiadau a'r gweithdrefnau a nodwyd uchod.

Hysbysiadau i'r wasg

Bydd hysbysiadau i'r wasg am bob agwedd ar ein gwaith yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd hysbysiadau yn cael eu dosbarthu i ganolfannau cyfryngau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yng Nghymru.

I gyflawni hyn, byddwn:

- yn darparu cyfarwyddiadau swyddfa i sicrhau bod pob hysbysiad a datganiad i'r wasg yn cael eu cyhoeddi yn ddwyieithog a byddwn yn monitro cydymffurfiad.

Deunydd cyhoeddusrwydd

Bydd yr holl ddeunydd cyhoeddusrwydd, mewn print neu fformat arall, gan gynnwys deunydd arddangos, yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r un ansawdd â'i gilydd a byddant ar gael ar yr un pryd.

I gyflawni hyn, byddwn:

- yn cynhyrchu ac yn monitro'r broses o gynhyrchu deunyddiau cyhoeddusrwydd Cymraeg a Saesneg i sicrhau ansawdd cyson yn y deunydd terfynol a gyhoeddir yn y ddwy fersiwn.

Recriwtio

Bydd pob hysbyseb recriwtio am swydd yn Estyn, ac ar gyfer hyfforddiant ar gyfer arolygu, yn Gymraeg ac yn Saesneg, a byddant yn cael eu dangos gyda'i gilydd. Rhoddir statws cyfartal i'r ddwy iaith o ran fformat, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd. Mewn achosion eithriadol, er enghraifft, gofynion ieithyddol y swydd a dosbarthu'r cylchlythyr a/neu'r cylchgrawn, gallai hysbyseb ymddangos mewn un iaith yn unig (er enghraifft yn y Times Educational Supplement lle bydd yn Saesneg yn unig, ac yn y wasg Gymraeg lle bydd yn Gymraeg yn unig).

I gyflawni hyn, byddwn:

- yn cyhoeddi ein hysbysebion ar gyfer swyddi a chyrsiau hyfforddiant yn unol â'n polisi a byddwn yn eu monitro i wneud yn siŵr eu bod yn cael eu cynhyrchu a'u cyhoeddi yn unol â'n gofynion.

Gwasanaethau y mae eraill yn eu cyflwyno ar ran Estyn

Mae Estyn yn arolygu tua 300 o ysgolion bob blwyddyn. Cynhelir y rhan fwyaf o'r arolygiadau hyn gan arolygwyr annibynnol ac fe'u rheolir gan y mesurau a amlinellir yn y Cynllun hwn.

I sicrhau bod y rhain yn cydymffurfio â'r Cynllun hwn, byddwn:

- yn gwneud yn siŵr bod pob contract yn gyson â thelerau'r Cynllun hwn;

- yn cynnwys gofynion penodol ynghylch defnyddio'r Gymraeg mewn manylebau contract;

- yn darparu cyfarwyddiadau desg ysgrifenedig ar gyfer staff sy'n delio â chontractau ac ar gyfer arolygwyr annibynnol sy'n gweithredu ar ein rhan;

- yn archwilio tendrau arolygu yn ofalus i sicrhau bod y manylebau arolygu yn cael eu bodloni. Trwy delerau'r contract ar gyfer arolygu, gallwn sicrhau bod y contractwr yn gweithredu'r adrannau perthnasol o'n Cynllun; ac

- yn monitro sampl o arolygiadau a gynhaliwyd, i gadarnhau a fodlonwyd y gofynion iaith ai peidio a chanlyn unrhyw fath o dorri contract.

Rydym wedi llunio taflen ddwyieithog 'Gwasanaethau Cymraeg Estyn sy'n Ymwneud ag Arolygiadau', sy'n amlinellu arweiniad clir i arolygwyr. Mae hwn ar gael ar ein gwefan.

Partneriaethau

Mae Estyn yn gweithio mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus, sefydliadau sector gwirfoddol ac asiantaethau eraill. Trwy weithio gydag eraill, bydd Estyn yn mabwysiadu'r dulliau canlynol:

- pan fydd yn gyfrifol am arweinyddiaeth strategol ac ariannol partneriaeth, bydd Estyn yn sicrhau bod y ddarpariaeth gyhoeddus yn cydymffurfio â Chynllun Iaith Estyn ei hun;

- pan fydd yn ymuno â phartneriaeth a arweinir gan gorff arall, bydd Estyn yn sicrhau bod ei fewnbwn ei hun i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â'r Cynllun a bydd yn annog y partïon eraill i wneud yn yr un modd; a

- phan fydd yn gweithredu fel rhan o gonsortia, bydd Estyn yn annog y consortiwm i fabwysiadu polisi iaith Estyn. Pan fydd yn gweithredu'n gyhoeddus yn enw'r consortia, bydd Estyn yn gweithredu yn unol â'i Gynllun ei hun.

Pan fydd naill ai'n ymuno â phartneriaeth, neu'n ffurfio partneriaeth, bydd Estyn yn annog y darpar bartneriaid i ddarparu Cynlluniau Iaith, polisïau iaith neu drefniadau iaith ar gyfer gweithredu yn ddwyieithog. Fel rhan o bob partneriaeth, bydd Estyn yn cynnig cyngor a chymorth i'r partïon eraill dan sylw.

Gweithredu'r Cynllun

Arweinyddiaeth a rheolaeth ar y Cynllun

Byddwn yn rhoi statws uchel i'n Cynllun ac yn anelu at ei weithredu yn dda.

I gyflawni hyn, byddwn:

- yn sicrhau bod cyfrifoldeb y Prif Arolygydd am y Cynllun yn cael ei ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol a enwyd. Bydd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol hwn yn gyfrifol am weithredu'r Cynllun o ddydd i ddydd. Bydd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol yn adrodd am gynnydd i'r Prif Arolygydd a/neu'r uwch dîm rheoli yn rheolaidd;
- yn sicrhau cyswllt rhwng y Cyfarwyddwr Cynorthwyol a chynrychiolwyr o gyfarwyddiaethau eraill ac adrannau o fewn cyfarwyddiaethau i hwyluso gweithredu'r Cynllun a monitro'i effeithiolrwydd;
- yn cynnwys cynrychiolydd gweithgor o holl staff Estyn a gymeradwywyd gan uwch dîm rheoli Estyn wrth adolygu a datblygu'r Cynllun; ac
- yn sefydlu trefniadau monitro addas.

Staffio

Bydd Estyn yn ymdrechu i gael digon o staff dwyieithog i gyflawni ei fusnes yn unol â gofynion y Cynllun hwn. Bydd hefyd yn sicrhau bod pob aelod o'r staff, gan gynnwys arolygwyr annibynnol, yn ymwybodol o ofynion y Cynllun.

I gyflawni'r amcan hwn, byddwn:

- yn monitro gallu iaith ac ymwybyddiaeth iaith y sefydliad i wneud yn siŵr bod gennym y medrau dwyieithog, gan gynnwys medrau arolygu dwyieithog, sydd eu hangen i fodloni gofynion y Cynllun hwn;
- yn dangos mewn llenyddiaeth recriwtio a hysbysebion am swyddi lle mae'n hanfodol neu'n ddymunol bod y rheiny sy'n gwneud cais yn gallu gweithio yn ddwyieithog;
- yn cyflogi digon o staff dwyieithog er mwyn gallu cyflawni gwaith Cymraeg yn effeithiol ac yn effeithlon ac yn ôl graddfeydd amser penodol;
- yn blaenoriaethu anghenion hyfforddiant staff yng ngoleuni'r angen i fodloni gofynion y Cynllun hwn;
- yn sicrhau hyfforddiant ar gyfer staff sy'n siarad Cymraeg i wella'u medrau siarad ac ysgrifennu yn Gymraeg er mwyn iddynt allu paratoi a chyfrannu at fodloni ein hamcanion;
- yn sicrhau hyfforddiant ar gyfer staff sy'n siarad Cymraeg sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu wella'u gallu i siarad neu ysgrifennu yn Gymraeg; ac
- yn defnyddio arolygwyr ychwanegol ac aseswyr cymheiriaid sy'n ymwybodol o ofynion y Cynllun hwn, fel sydd angen.

Wrth recriwtio staff, mae'r Prif Arolygydd yn ystyried gallu staff cyfredol yn y Gymraeg ac yn hysbysebu yn unol â hynny.

Hyfforddiant Cymraeg ar gyfer staff

Bydd hyfforddiant yn cael ei gynnig i bob un o'r staff, i ddatblygu neu wella'u medrau siarad ac ysgrifennu yn Gymraeg.

I gyflawni hyn, byddwn:

- yn cefnogi staff sy'n dymuno mynychu cyrsiau mewn canolfannau priodol i wella'u medrau siarad/ysgrifennu;
- yn darparu hyfforddiant mewnol ar gyfer gwella ysgrifennu i arolygwyr; ac
- yn ystyried yr anghenion hyfforddiant a nodwyd yn ystod cyfnod sefydlu ac mewn gwerthusiadau ar ôl hynny, i gynllunio cyrsiau datblygu iaith ar gyfer staff yn unol â'u ceisiadau ac anghenion Estyn.

Cymorth i staff wrth weithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg

Byddwn yn rhoi cymorth i staff wrth weithredu ein Cynllun Iaith Gymraeg.

I gyflawni hyn, byddwn:

- yn cyflwyno copi o'r Cynllun Iaith i bob un o'r staff;
- yn darparu cyfarwyddiadau/arweiniad i gefnogi'r agweddau canlynol ar y Cynllun:
    - cyfathrebu â'r cyhoedd (cyswllt ffôn ac wyneb yn wyneb);
    - sefydlu'r angen am gyfarfodydd Cymraeg gyda phenaethiaid a chadeiryddion llywodraethwyr;
    - gweithredu arfer cyhoeddiadau dwyieithog Estyn;
    - darparu cyfleoedd hyfforddiant Cymraeg gan gynnwys cyrsiau ymwybyddiaeth iaith; a
    - chasglu, storio a chadw data a chynhyrchu deunydd dwyieithog ar systemau TG.

Gwasanaethau cyfieithu

Byddwn yn sicrhau gwasanaethau cyfieithu effeithiol o ansawdd uchel sy'n galluogi i ni fodloni gofynion y Cynllun.

I gyflawni hyn, byddwn:

- yn monitro cyflawni targedau amser cytûn; ac
- yn arfarnu ansawdd y cyfieithiadau a gynhyrchir ac yn rhoi adborth i'r gwasanaeth cyfieithu.

Monitro'r Cynllun a chyhoeddi gwybodaeth

Bydd y strwythur adrodd canlynol yn cael ei fabwysiadu yn ystod tair blynedd gweithredu'r Cynllun:

1 Bydd adroddiadau cynnydd mewnol yn cael eu paratoi a'u cyflwyno i'r Uwch Dîm Rheoli bob tymor.

2 Bydd Estyn yn paratoi Adroddiad Monitro Blynyddol a fydd yn galluogi'r sefydliad i gyflawni'r amcanion canlynol:

- mesur a yw Estyn yn cydymffurfio â'r Cynllun;
- mesur ansawdd y gwasanaeth cyfrwng Cymraeg;
- mesur effeithiolrwydd ei weithdrefnau ar gyfer rheoli'r Cynllun;
- mesur digonolrwydd gallu medrau ieithyddol Estyn;
- dadansoddi perfformiad fesul cyfarwyddiaeth, ac ar sail gorfforaethol a thematig i sicrhau cysondeb; a
- nodi unrhyw wendidau allweddol gyda chynllun gweithredu ac amserlen i unioni'r sefyllfa.

3 Yn dilyn cymeradwyaeth yr uwch dîm rheoli, bydd copi o'r adroddiad swyddogol yn cael ei anfon i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

4 Yn ystod y drydedd flwyddyn o weithredu'r Cynllun, bydd Estyn yn adolygu ac yn diweddaru ei Gynllun Iaith Gymraeg ac yn llunio dogfen ddiwygiedig. Bydd Estyn hefyd yn paratoi adroddiad arfarnu, a fydd yn dadansoddi perfformiad wrth weithredu'r Cynllun dros y tair blynedd gyntaf. Bydd yr adroddiad trydedd flwyddyn hwn yn cynnwys:

- Trosolwg a dadansoddiad thematig o berfformiad a chydymffurfiaeth â'r Cynllun dros y tair blynedd, o ran ansawdd y gwasanaeth cyfrwng Cymraeg a rheoli'r Cynllun; ac
- Amlinelliad o nodau ac amcanion pellach Estyn a thargedau ar gyfer y tair blynedd ganlynol gydag amserlen gweithredu ddiwygiedig. Yn ogystal, bydd yr adroddiad yn amlinellu unrhyw ddiwygiadau neu ychwanegiadau, y mae Estyn yn credu y dylid eu cynnwys yn y Cynllun diwygiedig.

Cyhoeddi'r Cynllun

Byddwn yn sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'n Cynllun.

I gyflawni hyn, byddwn:

- yn cyfeirio'n amlwg at ei ddatblygiad a'i brif nodweddion yn y cynllun corfforaethol neu'r cynllun blynyddol;
- yn cyhoeddi'r Cynllun ei hun ac yn cyhoeddi hysbysiad i'r wasg ar ei gyhoeddi;
- yn dosbarthu taflenni/dalennau yn disgrifio prif nodweddion y Cynllun i gyrff llywodraethol ysgolion, colegau a sefydliadau eraill a arolygir, yn barhaus; ac
- yn ei gyhoeddi ar wefan Estyn pan fydd wedi cael ei ddatblygu.

Awgrymiadau ar gyfer gwella'r Cynllun

Rydym yn croesawu awgrymiadau ar gyfer gwella'r Cynllun. Dylid anfon awgrymiadau at:

Mererid Wyn Williams
Cyfarwyddwr Cynorthwyol
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW.

Cwynion

Ymdrinnir â phob cwyn yn unol â'r gweithdrefnau a'r graddfeydd amser a amlinellir yng ngweithdrefn gwynion gyhoeddedig Estyn.

Cynllun gweithredu ar gyfer rhoi Cynllun Iaith Gymraeg Estyn ar waith — Atodiad 1

Bydd y Prif Arolygydd a'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol sy'n gyfrifol am y Cynllun Iaith Gymraeg yn cael trosolwg o'r holl weithgareddau monitro

Maes	Nod y polisi	Person sy'n gyfrifol am ei weithredu	Person sy'n gyfrifol am fonitro	Graddfa amser	Meini prawf llwyddiant	Dyddiadau adolygu
3. Perthynas gydag eraill; arolygu a chyngor	Byddwn yn cymhwyso egwyddor o gydraddoldeb ar gyfer y Gymraeg a'r Saesneg yn ein holl waith arolygu a byddwn yn arolygu safonau darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru	Yr holl staff	Penaethiaid Cyfarwyddiaeth	Ar waith: monitro parhaus	• Bod yn effro i oblygiadau pob polisi a menter newydd; • Mae pob adroddiad arolygu yn cynnwys barnau priodol ar safonau darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog; • Ceir cyswllt rheolaidd â Bwrdd yr Iaith Gymraeg; • Mae ein cyngor yn ystyried materion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.	Adolygiad blynyddol Gorffennaf 2008
4. Safon ein gwasanaeth iaith	Ein nod yw cyflwyno gwasanaeth dwyieithog a Chymraeg o ansawdd uchel, ac wrth gadw at ofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, mabwysiadu'r arfer orau posibl o ran defnyddio'r Gymraeg.	Yr holl staff	Rheolwyr	Ar waith: monitro parhaus	• Tystiolaeth o ymgynghori ar anghenion a chafwyd ymateb addas; • Tystiolaeth o driniaeth gyfartal; • Canllawiau clir ar safonau gwasanaeth; • Datblygu polisi yng ngoleuni adborth; • Adborth cadarnhaol gan ddefnyddwyr gwasanaeth; ac • Ni chafwyd unrhyw gŵynion a gadarnhawyd.	Adolygiad blynyddol Gorffennaf 2008
5. Gwasanaeth Cymraeg Estyn	Bydd gohebiaeth wedi'i dechrau gan Estyn am faterion sydd â pherthnasedd cyffredinol yng Nghymru yn ddwyieithog. Bydd yr holl ohebiaeth yn cael ei hateb yn yr iaith y'i derbyniwyd.	Yr holl staff	Rheolwyr	Ar waith: monitro parhaus	• Caiff cyfarwyddiadau desg wedi'u diweddaru eu dosbarthu a'u dangos mewn mannau gwaith newydd; • Mae monitro yn dangos cydymffurfiaeth; ac	Adolygiad blynyddol Gorffennaf 2008

					• Ni chafwyd o unrhyw gŵynion a gadarnhawyd.	
	Mae croeso i unrhyw un sy'n cysylltu â ni dros y ffôn wneud hynny yn Gymraeg neu yn Saesneg. Bydd pawb yn cael eu cyfarch yn ddwyieithog. Gallant ddisgwyl cael eu trosglwyddo i aelod o staff sy'n gallu sgwrsio gyda nhw yn Gymraeg.	Yr holl staff	Rheolwyr	Ar waith: monitro parhaus	• Sefydlu a hyfforddiant staff ar waith; • Cyfarwyddiadau desg wedi'u diweddaru ar gael ac yn cael eu defnyddio; ac • Mae monitro cydymffurfio â gweithredu cyfarwyddiadau desg yn dangos bod arweiniad yn cael ei ddilyn yn gyffredinol.	Adolygiad chwarterol Mehefin 2007, Medi 2007, Rhagfyr 2007, Mawrth 2008 Adolygiad blynyddol Gorffennaf 2008
	Rydym yn annog ac yn croesawu'r defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg mewn cyfathrebu electronig a byddwn yn sicrhau bod ein gwefan yn ddwyieithog.	Rheolwr TGCh	Cyfarwyddwr Strategol	Ar waith: monitro parhaus	• Sefydlwyd gwefan ddwyieithog newydd.	Adolygiad blynyddol Gorffennaf 2008
	Wrth drefnu cyfarfodydd sy'n cynnwys aelodau o'r cyhoedd a chyrff eraill, byddwn yn ystyried y trefniadau ymarferol sy'n ofynnol i sicrhau bod pawb yn gallu siarad yn eu dewis iaith. Byddwn yn cyflwyno arweiniad i arolygwyr a rhan ddeiliaid am hyn.	Yr holl staff	Rheolwyr	Ar waith: monitro parhaus	• Mae pob cyfarfod cyhoeddus yn bodloni gofynion y Cynllun ac yn dilyn yr arweiniad a gyhoeddwyd.	Adolygiad blynyddol Gorffennaf 2008
	Mae croeso i aelodau o'r cyhoedd siarad Cymraeg neu Saesneg mewn cyfarfodydd a chynadleddau sy'n cael eu cynnal gennym ni.	Yr holl staff	Rheolwyr	Ar waith: monitro parhaus	• Mae pob cyfarfod a chynhadledd yn bodloni gofynion y Cynllun.	Adolygiad blynyddol Gorffennaf 2008
	Bydd enw, cyfeiriad a logo Estyn yn ddwyieithog ac yn cael eu defnyddio ym mhob un o'r cyhoeddiadau/ cyfeiriadau/ cyflwyniadau. Mae arwyddion gwybodaeth ar swyddfeydd Estyn yng Nghaerdydd ac yn Yr Wyddgrug yn ddwyieithog, gyda'r ddwy iaith yn cael yr un amlygrwydd o ran fformat, maint,	Cyfarwyddiaeth Gweithrediadau, Polisi a Chynllunio (CGPCh) Uwch Swyddog Gweithredol	Cyfarwyddwr Strategol	Ar waith: monitro parhaus	• Mae'r ddelwedd gorfforaethol yn bodloni gofynion y Cynllun.	Adolygiad blynyddol Gorffennaf 2008

	ansawdd ac eglurder.					
	Bydd pob aelod o'r cyhoedd yn gallu darllen y cyhoeddiadau hynny gan Estyn sy'n berthnasol i Gymru gyfan yn eu dewis iaith. Gall unrhyw un sy'n gysylltiedig ag unrhyw sefydliad addysg neu hyfforddiant yng Nghymru ddisgwyl i adroddiadau wedi'u cyhoeddi gan Estyn ar sefydliadau unigol gael eu cyhoeddi yn ddwyieithog pan ofynnir amdanynt. Lle na ofynnir am adroddiad dwyieithog, bydd adroddiadau ar sefydliadau unigol yn ymddangos yn Saesneg yn unig.	Yr Adran Gyhoeddiadau	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyfarwyddwr Strategol	Ar waith: monitro parhaus	• Mae cyhoeddiadau yn bodloni gofynion y Cynllun.	Adolygiad blynyddol Gorffennaf 2008
	Bydd yr holl ffurflenni cyhoeddedig a deunydd esboniadol yn cael eu cyhoeddi yn ddwyieithog. Mewn amgylchiadau lle gallai fod yn fwy priodol i gyhoeddi ffurflenni Cymraeg a Saesneg ar wahân, (e.e. pan allai dogfennau a gynhyrchir yn ddwyieithog fod yn anhylaw) byddwn yn cyhoeddi'r ddwy fersiwn ochr yn ochr ac yn trefnu eu bod ar gael yn gyfartal.	Staff CGPCh ac AEM Rheoli	Cyfarwyddwr Cynorthwyol	Ar waith yn bennaf.	• Mae pob un o'r deunyddiau yn bodloni gofynion y Cynllun.	Adolygiad blynyddol Gorffennaf 2008
	Bydd hysbysiadau i'r wasg ar bob agwedd ar ein gwaith yn cael eu cyflwyno yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd hysbysiadau yn cael eu dosbarthu i ganolfannau cyfryngau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yng Nghymru.	Tîm cyfathrebu a'r adran gyhoeddiadau	Cyfarwyddwr Strategol	Ar waith: adolygiad parhaus	• Caiff hysbysiadau i'r wasg eu cyhoeddi yn ddwyieithog neu yn y naill iaith neu'r llall yn ôl cyfrwng y cyhoeddiad.	Adolygiad blynyddol Gorffennaf 2008
	Bydd yr holl ddeunydd cyhoeddusrwydd, mewn print neu fformat arall, gan gynnwys deunydd arddangos, yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd fersiynau	Tîm cyfathrebu a'r adran gyhoeddiadau. Arolygwyr	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyfarwyddwr Strategol	Ar waith: adolygiad parhaus	• Mae'r holl ddeunyddiau cyhoeddusrwydd ar gael yn y ddwy iaith i'r un fanyleb.	Adolygiad blynyddol Gorffennaf 2008

	Cymraeg o'r un ansawdd â'r fersiynau Saesneg a byddant ar gael ar yr un pryd.					
	Bydd hysbysebion recriwtio ar gyfer pob swydd yn Estyn, ac ar gyfer hyfforddiant ar gyfer arolygu, yn Gymraeg ac yn Saesneg ac yn cael eu dangos gyda'i gilydd. Bydd y ddwy iaith yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.	Cyfarwyddiaeth Gweithrediadau, Polisi a Chynllunio	Swyddog Adnoddau Dynol	Ar waith: monitro parhaus	• Mae'r holl ddeunyddiau a'r hysbysebion recriwtio yn bodloni gofynion y Cynllun.	Adolygiad blynyddol Gorffennaf 2008
	Arolygir dros 300 o ysgolion bob blwyddyn, gan arolygwyr annibynnol yn bennaf. Caiff yr arolygiadau hyn eu rheoli gan yr egwyddorion a amlinellir yn y Cynllun.	Adran Gontractau	Cyfarwyddwr Strategol	Ar waith: monitro parhaus	• Mae arolygiadau wedi'u contractio yn bodloni gofynion y Cynllun; ac • Ni chafwyd unrhyw gŵynion a gadarnhawyd.	Adolygiad blynyddol Gorffennaf 2008
	Bydd digon o arolygwyr dwyieithog i fodloni proffil ieithyddol y gymuned sy'n cael ei harolygu mewn arolygiadau sy'n cael eu harwain gan Estyn o ddarparwyr addysg eraill, fel Addysg Bellach, Dysgu yn y Gwaith, Dysgu Oedolion yn y Gymuned a Phartneriaethau Pobl Ifanc.	Arolygwyr Cofnodol AEM Rheoli	Cyfarwyddwr Strategol	Parhaus	• Mae pob holiadur ôl-arolygiad yn dangos lefelau uchel o foddhad; ac • Ni chafwyd unrhyw gŵynion a gadarnhawyd.	Adolygiad blynyddol Gorffennaf 2008
6. Gweithredu'r Cynllun	Byddwn yn rhoi statws uchel i'n Cynllun iaith a byddwn yn ei weithredu yn dda.	Uwch Dîm Rheoli Cyfarwyddwr Cynorthwyol sy'n gyfrifol	Prif Arolygydd	Ar waith: monitro parhaus	• Mae pob un o'r meini prawf llwyddiant a amlinellir yn y cynllun gweithredu hwn yn cael eu bodloni; ac • Ni chafwyd unrhyw gŵynion a gadarnhawyd.	Adolygiad blynyddol Gorffennaf 2008
	Bydd Estyn yn ymdrechu i gael digon o staff i gyflawni ei fusnes yn unol â gofynion y cynllun hwn ac amcanion busnes y sefydliad.	Pob un o'r staff sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau recriwtio	Prif Arolygydd	Ar waith: monitro parhaus	• Caiff staff eu penodi a'u hyfforddi i alluogi Estyn i fodloni gofynion y Cynllun hwn.	Adolygiad blynyddol Gorffennaf 2008

6a	Bydd hyfforddiant yn cael ei gynnig i ddatblygu gallu pob un o'r staff i weithredu trwy gyfrwng y Gymraeg A. Estyn i gynnal dadansoddiad anghenion o'r holl staff i bennu lefel y diddordeb a'r math o gyrsiau sydd eu hangen. B. Bydd cyrsiau hyfforddiant a ariennir yn ganolog yn cael eu cynnig i'r holl staff i wella'u gallu i weithredu a chyfathrebu trwy'r Gymraeg. Bydd y cyllid hwn ar gael ar gyfer dau brif fath o gyrsiau: **Cyrsiau mewnol** Bydd y cyrsiau hyn yn cael eu trefnu ar gyfer: • pob un o'r staff newydd Di-Gymraeg. Bydd pawb sy'n ddi-Gymraeg yn ymgymryd â hanner diwrnod o hyfforddiant i roi lefel ddigonol o gymhwysedd a hyder i staff newydd i ateb ymholiadau ffôn sylfaenol yn Gymraeg. • cwrs i ddechreuwyr • canolradd – hyd at TGAU • uwch- hyd at Safon Uwch Defnyddio'r Gymraeg • cwrs Gloywi ar gyfer siaradwyr Cymraeg i wella'u medrau ysgrifennu ar arolygiad **Cyrsiau allanol** Bydd ystod o gyrsiau allanol ar gael i staff yn ôl anghenion busnes Estyn, i gynnwys: • dosbarthiadau Cymraeg gyda'r nos • cyrsiau Wlpan • hyfforddiant dwys • cyrsiau penwythnos • ysgolion dydd Sadwrn	Rheolwyr	Cyfarwyddwr Strategol ac Adnoddau Dynol Cyfarwyddwr Strategol ac Adnoddau Dynol Adnoddau Dynol	Ar waith: monitro parhaus	• Mae staff sy'n dymuno dechrau dysgu Cymraeg, i wella'u cymhwysedd cyfredol neu i ddod yn fwy hyderus wrth ysgrifennu Cymraeg yn cael cyfleoedd i wella'u medrau iaith. • Byddwn yn cynnig cymorth ychwanegol i Arolygwyr sy'n siarad Cymraeg sydd angen cymorth ychwanegol â'u medrau ysgrifennu.	Adolygiad blynyddol Gorffennaf 2008

	Byddwn yn rhoi cymorth i staff mewn gweithredu ein Cynllun Iaith Gymraeg	Rheolwyr	Cyfarwyddwr Cynorthwyol sy'n gyfrifol	Ar waith: monitro parhaus	Hyfforddiant, cyfarwyddiadau desg a chymorth personol ar gael i staff. Rhaglen o gymorth wedi'i chynllunio i alluogi staff i wella eu hyfedredd yn eu gwaith o ddydd i ddydd	Adolygiad blynyddol Gorffennaf 2008
	Byddwn yn sicrhau gwasanaethau cyfieithu o ansawdd uchel sy'n ein galluogi i fodloni gofynion y Cynllun.	Yr adran gyhoeddiadau	Rheolwyr Polisi, Cynllunio a Gwasanaethau Corfforaethol Cyfarwyddwr Cynorthwyol sy'n gyfrifol	Ar waith: monitro parhaus	• Gwasanaethau priodol wedi'u sicrhau sy'n galluogi Estyn i fodloni gofynion y Cynllun.	Adolygiad blynyddol Gorffennaf 2008
7. Monitro'r Cynllun a chyhoeddi gwybodaeth	Byddwn yn monitro ein perfformiad wrth fodloni'r ymrwymiadau a wnaed yn y cynllun hwn gyda'r bwriad o wella'i effeithiolrwydd. Byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth gan gymharu perfformiad â safonau a thargedau a amlinellir yn y Cynllun hwn.	Yr holl staff	Aelodau o'r Grŵp Llywio Dwyieithog Cyfarwyddwr Cynorthwyol sy'n gyfrifol	Ar waith: monitro parhaus	• Mae trefniadau monitro trylwyr ar waith, sy'n arwain at wella gwasanaeth a boddhad y cyhoedd â'r Cynllun Iaith Gymraeg.	Adolygiad blynyddol Gorffennaf 2008
8. Cyhoeddi'r Cynllun	Byddwn yn sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'n Cynllun.	Tîm cyfathrebu Rheolwr Gwefan	Aelodau o'r Grŵp Llywio Dwyieithog Cyfarwyddwr Cynorthwyol sy'n gyfrifol	Ar waith: monitro parhaus	Defnydd o'r wefan: • adborth gan y cyhoedd; • lefelau uchel o ymwybyddiaeth ymhlith staff a chleientiaid/ cwsmeriaid o gynnwys y Cynllun; ac • Ni chafwyd unrhyw gŵynion a gadarnhawyd	Adolygiad blynyddol Gorffennaf 2008
10. Cwynion	Ymdrinnir â phob cwyn yn unol â'r amserlen a gytunwyd yng ngweithdrefnau cwynion Estyn.	Aelod priodol o staff	Rheolwr sy'n gyfrifol	Ar waith: monitro parhaus	Ymdrinnir â phob cwyn yn unol â pholisi cwynion Estyn.	Adolygiad chwarterol Mehefin 2007, Medi 2007, Rhagfyr 2007, Mawrth 2008 Adolygiad blynyddol Gorffennaf 2008